OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 6

Dirymu a darpariaeth drosiannol

Dirymu a darpariaeth drosiannol

45.—(1) Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022(**1**) wedi ei ddirymu.

(2) Mae gweithiwr amaethyddol a gyflogir fel gweithiwr ar Radd neu fel prentis, ac sy'n ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau a ragnodwyd yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022 neu unrhyw Orchmynion blaenorol, yn ddarostyngedig, o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn cymryd effaith, i'r telerau a'r amodau a nodir yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn hwn.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "Gorchmynion blaenorol" yw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022(**2**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022(**3**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020(**4**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2019(**5**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018(**6**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017(**7**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016(**8**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012 a phob gorchymyn a ddirymwyd gan erthygl 70 o'r Gorchymyn hwnnw.

(**1**) O.S. 2022/417 (Cy. 102).
(**2**) O.S. 2022/794 (Cy. 172).
(**3**) O.S. 2022/417 (Cy. 102).
(**4**) O.S. 2020/347 (Cy. 78).
(**5**) O.S. 2019/511 (Cy. 118).
(**6**) O.S. 2018/433 (Cy. 76).
(**7**) O.S. 2017/1058 (Cy. 271).
(**8**) O.S. 2016/107 (Cy. 53).